



Trwy ebost

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i BGC Pen-y-bont ar Ogwr

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Darganfu fy nhîm bod siarad â'ch swyddogion cynorthwyol wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer rhoi dealltwriaeth iddynt o'r modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel BGC a'r dull yr ydych wedi ei fabwysiadu at gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion hyn a gweithredu mewn dull gwahanol. Fel y byddant wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu cyson rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol a'i bod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Diolch am rannu copi o'ch cynllun llesiant drafft gyda fy nhîm. Rwy'n seilio'r cyngor hwn ar eich amcanion a'ch camau drafft a bennwyd gennych hyd yn hyn. Mae fy nghyngor mewn dwy ran - yn gyntaf fe'i bwriedir i'ch helpu i ystyried sut y gallech gyflawni hyn yn effeithiol. Yn ail mae'n seiliedig ar eich amcanion drafft ac yn rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos, drwy eich cynllun llesiant, eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', a'ch helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Deallaf eich bod wedi cynnal gweithdai asesu fel BGC a gweithgorau arbenigol i benderfynu ar eich amcanion drafft, sef:

1. **Amcan 1: Cychwyn gorau mewn bywyd.**
2. **Amcan 2: Cynorthwyo cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel a chydlynol.**
3. **Amcan 3: Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd**
4. **Amcan 4: Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach.**

Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:

Nid busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a chmau. Yn y gorffennol, rydym wedi dibynnu ar themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud beth bynnag. Mae gwireddu

uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, beth ydych yn ei wneud i gyfrannau tuag at ein gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwyllianau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol? A sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae fy nhîm wedi bod yn datblygu 'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol', mewn partneriaeth â'r Sefydliad Economeg Newydd, i helpu i ddatblygu syniadaeth. Pwrpas y fframwaith hwn (a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiectau'n ymwneud â seilwaith) yw helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith ar gyfer meddwl wrth gynllunio prosiectau; gellir hefyd ei ddefnyddio i adolygu cynnydd wrth i'r prosiect ddatblygu. Rydym yn gweithio ar sicrhau bod y fframwaith yn berthnasol i ystod ehangach o brosiectau yn cynnwys datblygu polisi/cynllun, a bydd ar gael cyn bo hir. Byddai diddordeb gennym i glywed unrhyw adborth ar ei ddefnyddioldeb i'ch gwaith.

Mae [Saerïaeth Dyfodol Cynaliadwy](#) Academi Cymru'n dweud yn glir sut mae angen i ymddygiad arweinyddion newid yn unol â'r egwyddorion. Mae angen i chi neilltuo amser a gofod i chi eich hunain fel BGC i gwestiynu a yw ymagweddau presennol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau a thensiynau wrth gyflwyno pob un o'ch amcanion. Yn ymarferol, rwy'n cynghori BGCau i drefnu cyfarfod pwrpasol neu greu sesiynau ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft ar gyfer ennyn trafodaeth. Yn gyffredinol, ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft, hoffwn ddeall beth a olyga'r camau i Ben-y-bont ar Ogwr, a sut mae hyn yn ddull gwahanol o weithio i'r hyn y byddech wedi ei wneud yn y gorffennol.

Buaswn yn eich cynghori i fod yn ymwybodol o'r angen i ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth ydych chi'n ei ddeall am dueddiadau byd-eang hirdymor, cyfleoedd, risgiau a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar eich camau? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd gennych i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Mae eich cynllun llesiant drafft ar hyn o bryd yn edrych ymlaen ddegawd i'r dyfodol. Fy rôl statudol i yw gweithredu fel gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt. Rwy'n cynghori cyrff cyhoeddus i feddwl tu hwnt i'r pum, deng neu'r pymtheg mlynedd nesaf a meddwl am genedlaethau'r dyfodol ymhen pum mlynedd ar hugain, deg ar hugain, pymtheg ar hugain o flynyddoedd.

I drwytho eich gweithgareddau, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol ar gyfer pob un o'ch amcanion. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fod yn gwneud y defnydd mwyaf posibl ohono drwy gyrchu Objective Connect neu drwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth roi datblygu cynaliadwy ar waith.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth hyd yn oed cyn iddo ddigwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Mae llawer o FGau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalu cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data, a thrwytho eich camau drwy ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thuaddiadau.

- **Cydweithio:** Deallaf eich bod yn cydweithio'n fwy eang ar draws ffiniau Awdurdod Lleol a bod gennych gymorth rhanbarthol. Fel yr argymhellwyd gennyf yn fy adroddiad ar Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn? Mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio?

Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn fwy effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-ariannu cefnogaeth, cyd-leoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac o bwys mawr, rhannu adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut mae'r camau y byddwch yn eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, dangos eich bod yn cymryd camau sy'n maxsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Rwy'n dweud wrth bob BGC i ystyried yn fwriadol a phendant y cysylltiadau rhwng eich amcanion i helpu i drwytho eich penderfyniadau ar y camau mwyaf pwysig. Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch amcanion? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliadau, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r amcan hwn? Deallaf eich bod wedi cydnabod y berthynas rhwng eich Bwrdd a Bwrdd rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae integreiddio'n golygu sicrhau bod partneriaethau eraill yn deall ac yn cyfrannu at waith ei gilydd. Ni ddylid gweld y BGC fel endid ar wahân. Ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau neu densiynau sydd wedi codi a pha gamau fedrwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd eu hangen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Awgrymodd fy ymateb i'ch asesiad llesiant eich bod yn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn fel BGC. Rwy'n dymuno gweld ffofws amlwg oddi wrth bob BGC sy'n dangos eu bod yn mynd tu hwnt i'r ymgynghori a'r ymgysylltu ad hoc arferol. Bydd angen i FGCau ddangos sut y maent ym ymroi i ddeall profiadau bywyd pobl yn yr ardal a sut mae hyn yn llunio eich penderfyniadau. Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Rhaid i mi bwysleisio bod eich arweinyddiaeth yn ofynnol ar gyfer mabwysiadu dull newydd o weithio. Fel arweinyddion, rwy'n siŵr eich bod yn rhan o lawer o bartneriaethau a strwythurau, cyfarfodydd a mentrau, ond bwriedir i'r BGC fod yn gyfle ar gyfer integreiddio a chydweithio ar lefel uwch a lefel dylanwad. I greu perchnogaeth a gweithredu ar y cyd fel BGC, mae angen i chi adeiladu dealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau eich gilydd a thrafod eich cymhellion. Mae angen i hyn dreiddio drwy bob lefel o'ch sefydliad chi eich hunan. Fel y cyfryw mae fy adroddiad '[Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#)' yn awgrymu bod angen i ni roi'r gorau i edrych ar FGC fel cyfarfod ffurfiol o dan arweiniad awdurdod lleol mewn ystafelloedd cyfarfod Cynghorau. Dylai'r BGC fod yn ymwneud â dull newydd o weithio, nid un sy'n cael ei sbarduno gan ddiwylliant un sefydliad. Gall Cadeirydd y BGC, sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut mae'r BGC yn cael ei gefnogi, i gyd newid dulliau o feddwl a chaniatáu ar gyfer her iachach i fusnes-fel-arfer. Er mwyn archwilio'r tensiynau a'r

cyfleoedd o gydweithio i gyflawni eich amcanion, mae angen i'r BGC fod yn fan sy'n gweithredu, nid yn fan ar gyfer cyflwyniadau diddorol.

Cefais fy nghalonogi i glywed bod llawer ohonoch yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb drwy eich gwaith gyda'r BGC ond mae sefydliadau ar draws Cymru nad ydynt yn cydweithio'n llwyr. Mae cynrychiolaeth gyson, a sut yr ydych yn dwyn negeseuon yn ôl o'r BGC i'ch sefydliadau chi eich hunain yn hollbwysig ar gyfer adeiladu cysylltiadau ac ennyn gweithredu. Mae cyfleu i'ch uwch dimau rheoli pam mae gwaith y BGC yn bwysig a defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunan yn hollbwysig ar gyfer creu'r newid mewn diwylliant a amlygwyd gennych yn eich trafodaethau gyda fy nhîm. Un o fy swyddogaethau i yw adnabod a lleihau rhwystrau, ond mae hyn hefyd yn wir amdanoch chithau - fel uwch arweinwyr, eich rôl chithau hefyd yw herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a'u darbwyllo ei bod hi'n 'saff i fethu'.

Ochr yn ochr â hyn bydd angen i chi dangos sut mae pob un o'ch sefydliadau yn cymryd pob cam rhesymol i ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Byddaf yn dymuno gweld nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono. Mae'r Ddeddf yn nodi saith maes sy'n gofyn am newid: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau a rheoli perfformiad a risg. Yn aml, nid yw swyddogion yn deall gwaith y BGC yn y meysydd gwaith hyn, eto y rhain yw'r gweithgareddau cyfundrefnol creiddiol lle byddai cymhwyso'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut yr ydych yn gweithio.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. Mae gen i ddiddordeb i weld sut mae gwahanol FGCau yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Fel mewn ardaloedd eraill, mae gennych yn awr swyddog rhanbarthol i gydlynu'r gwaith hwn. Mae rhai eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith mwy clos, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae nifer o adnoddau ar gael a allai fod yn ddefnyddiol megis [Designing Multi-Agency Partnerships](#); [Leading Culture Change](#) a bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn sefyllfaoedd o arweinyddiaeth, chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen.

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac y byddant yn cyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Bydd ail ran fy nghyngor yn helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

Cyngor ar sut y gallwch gymryd camau i gyflawni eich amcanion drafft:

O'r sgysiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar gasgliadau eich asesiad, cyfod negeseuon allweddol a drafftio eich amcanion a'ch

camau. Cefais fy nghalonogi i weld eich bod yn edrych ar gryfderau Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi datblygu cynllun drafft sy'n canolbwyntio ar hyn, gyda gweithrediadau a fedr wneud gwahaniaeth gwirioneddol i lesiant. Mae cydnabod yn eglur y rhyng-gysylltiadau rhwng eich amcanion drafft yn bwysig; dylech ystyried sut y maent yn unigol ac fel set, yn maccsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant. Rwy'n eich cynghori i edrych ar y diffiniadau o'r saith nod llesiant ac edrych am ddulliau o facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r saith, ar gyfer pob amcan. Gofynnwch i chi eich hunain - beth mwy fedrwn ni ei wneud? Drwy archwilio cysylltiadau â'r holl nodau llesiant, byddwch nid yn unig yn ennill darlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys, ond medrwn hefyd facsimeiddio ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau.

Amcan drafft 1: Cychwyn gorau mewn bywyd

Mae'r rhan fwyaf o FGCau wedi drafftio amcanion sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn, gan gydnabod pwysigrwydd buddsoddi yng nghenedlaethau'r dyfodol. Mae'n braf i weld eich bod yn ffocysu ar sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cyrchu gan deuluoedd yn integredig ac ataliol. Rwyf wedi gofyn i bob BGC sydd wedi gosod amcanion tebyg: beth sy'n mynd i newid ar bob lefel i wneud i hyn ddigwydd? Sut fydd gwasanaethau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer rhieni a theuluoedd arfaethedig yn newid yn lleol? Pa dystiolaeth leol fyddwch yn ei defnyddio i ddeall y modelau gwasanaethau llwyddiannus a'r ymyriadau sy'n gweithio? Fel BGC sut fedrai ffocysu ar atal profiadau niweidiol yn ystod plentynod weithio'n ymarferol i'ch sefydliad a'ch gwasanaethau? Ymgyfraniad pwy y gall y bydd angen i chi ei annog i ddeall hyn yn well? Pwy sydd angen eu cael o amgylch y bwrdd i wneud i hyn weithio?

Mae'n fantais amlwg i chi, fel BGC, bod Alyson Francis yn aelod o'ch BGC, a bod Pen-y-Bont ar Ogwr, hefyd wedi bod yn lleoliad ar gyfer treialu gwaith aml-asiantaeth ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ac wedi ei ariannu gan Gronfa Arloesedd yr Heddlu. Hoffwn weld sut yr ydych yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn a sicrhau nad yw'n aros yn brosiect bach lleol ond yn hytrach yn trwytho comisiynu cynllunio dylunio a darpariaeth gwasanaethau lleol sy'n berthnasol i fynd i'r afael yn llwyddiannus â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod. Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd yn ddiweddar i ysgrifennu at FGCau yn amlinellu nad rhywbeth arall i'w wneud yw talu sylw i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn cyflwyno gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod hefyd weithredu fel man canolog lle gall BGCau rannu arfer da. Rydym wedi gweithio gyda'r Gyfnewidfa Arfer Da i [greu gweminar ar ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod](#) ar y 7fed Tachwedd. Byddaf i ac Alyson Francis ar y panel a gellir gofyn cwestiynau i ni yn fyw.

Fel y nodwyd gennych mae costau'r cychwyn gwaethaf mewn bywyd yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. [Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr](#): (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Rwy'n dymuno gweld bod eich sefydliadau'n cydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar [y 1000 o ddiwrnodau](#)

[cyntaf](#) yn dangos sut y gall buddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf fedru chwalu cylchoedd a bod yn fanteisiol i'w llesiant hirdymor. Sut fedrai gwasanaethau lleol orfod newid petaech yn ailgyfeirio buddsoddi. Beth a olyga hyn yng nghyd-destun cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

Fel gwasanaethau cyhoeddus, mae delio â symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, megis salwch meddyliol, camddefnyddio sylweddau a thrais yn y cartref yn gostus iawn i'n sefydliadau ac i fywyd pobl. Rydym yn methu trin yr achosion sydd wrth wraidd y problemau hyn ac yn delio â phobl mewn categorïau defnyddwyr gwasanaethau megis goddefwyr, rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, tenant trafferthus neu droseddwr, yn hytrach na cheisio deall y darlun llawn. Mae hyn yn golygu ein bod yn methu cysylltu'r dotiau a gweithredu lle mae angen gwneud hynny - mewn dull ataliol, integredig a chydlynus. Felly, er ei bod yn bwysig i gael gweithluoedd sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, sy'n gallu gweld yr arwyddion a darparu peth cymorth, rhaid gweld yr ymgais i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fel cyfrifoldeb y system gyfan, nid dim ond yn nhermau ymwybyddiaeth, ond yn nhermau sut mae'r system mewn gwirionedd yn gweithredu. Mae peri i bobl, a'r rhai sy'n gweithio gyda hwynt i fod yn ymwybodol o'r arwyddion a medru mabwysiadu ymagwedd wybodus yn bwysig, ond rwy'n dymuno gweld sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r gwasanaethau fel cyfanwaith. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried pa mor dda mae'r gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn ymateb i deuluoedd lle mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ffactor, ac a ydynt yn ateb y galw yn nhermau atal profiadau niweidiol parhaus ymhlith plant a'u teuluoedd. Byddai cymhwysu'r pum dull o weithio i'r mater hwn yn golygu bod gwasanaethau i deuluoedd mewn materion megis cyfiawnder troseddol, tai, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar, camddefnyddio sylweddau, trais yn y cartref ac eraill, yn cael eu comisiynu, eu hadolygu a'u hintegreiddio fel eu bod yn atal ac yn ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Er bod cyfraddau'n lleihau, ym Mhen-y-bont ar Ogwr y mae'r gyfradd uchaf o feichiogrwydd ymhlith merched ifanc 15-17 mlwydd oed ac rydych wedi nodi effaith beichiogrwydd yn ystod yr arddegau ar ganlyniadau i famau a'u plant. Fel mater cymhleth, sy'n cael ei effeithio gan werthoedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, buaswn yn eich annog i ddeall profiadau bywyd mamau yn eu harddegau i ddeall y dulliau gorau o alluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus. Yn ogystal â deall hyn yn nghyd-destun Pen-y-bont ar Ogwr, mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi cynhyrchu'r adroddiad ['Planned teenage pregnancy'](#) mewn ardaloedd difreintiedig mewn rhannau o Loegr. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i edrych [ar y mater hwn mewn cyd-destun Cymreig gydag argymhellion](#) ar sut y mae angen i sefydliadau fabwysiadu ymagwedd aml-asiantaeth. Mae [astudiaethau rhyngwladol](#) wedi darganfod bod annog plant i werthfawrogi eu haddysg a rhoi iddynt gyfleoedd addysgol amgen hefyd yn helpu i ohirio magu plant.

Mae angen i ni roi'r gorau i edrych ar feichiogrwydd a blynyddoedd cynnar fel 'mater iechyd' gan archwilio'r cyfleoedd sy'n bodoli i herio darpariaeth gwasanaethau cyfredol gan ddefnyddio'r amcan hwn fel ffocws, a'r saith nod llesiant cenedlaethol fel canllaw. Mae plant yn byw mewn teuluoedd, sy'n byw o fewn cymunedau ac maent yn cyrchu llawer o wasanaethau. Mae ennyn ymgyfraniad pobl a deall, yn ganolog i'n dealltwriaeth a'n gallu i herio'r system gyfan; dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r astudiaethau achos a gynhwysir [yn yr adroddiad hwn gan](#)

[Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu ymagwedd holistig ac ataliol tuag at fywydau pobl.

Mae llawer o bethau'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc ac mae'n bwysig i'r BGC ddeall ble gallant gael yr effaith mwyaf. Er enghraifft, darganfu'r [London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree yn 2013](#) bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Mae'r [New Economics Foundation yn ei adroddiad Backing the Future](#) yn amlygu sut mae gennym rôl yn y dasg o fynd i'r afael â llesiant materol ac amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac ysgolion - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol sy'n cysylltu â'r amgylchedd naturiol yr ydym yn tyfu i fyny ynddo, cymunedau a chysylltiadau da, swyddi o ansawdd da ac iechyd. Mae'n rhaid i'ch ystyriaeth fod yn ehangach na'r hyn a fedr y blynyddoedd cyntaf, addysg a gwasanaethau iechyd eu cyflawni. Yn gysylltiedig â'ch amcan drafft ar leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd, sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Mae eich asesiad llesiant yn amlygu pocedi o amddifadedd mewn rhannau o'r sir. Sut y gellir ffocysu, yn arbennig, ar y cymunedau hyn? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn. Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn iddynt gyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn.

Yn ogystal ag incwm, gwyddom fod lechyd mamau a theuluoedd yn cael effaith mawr ar fywyd plentyn, sy'n eich cysylltu â'ch amcan arall ar ddewisiadau iechyd. Mae rhwng 10% ac 20% o fenywod yn datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd o fewn blwyddyn i'r enedigaeith. Mae'r anhwylderau hyn yn un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn y flwyddyn yn dilyn genedigaeth. Er gwaethaf hyn, mae menywod mewn oddeutu hanner y DU heb fynediad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol ac mewn manau daeryddol eraill mae gwasanaethau'n annigonol. Mae ystyried effaith gwasanaethau fel y rhain ar deuluoedd ifanc yn bwysig os yr ydych i fabwysiadu ymagwedd traws-sector. Mae'r prosiect ['Mums and Babies in Mind'](#) yn Lloegr wedi rhoi ffocws i arweinwyr lleol i greu llwybr ar draws sectorau sy'n darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i fenywod beichiog a mamau newydd.

Gall y mathau hyn o anfantaision gael effeithiau parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc gan effeithio'n ddifrifol ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae cyfleoedd yn ystod plentynod yn allweddol ac rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i gynghori y dylai cyrff cyhoeddus a BGCau roi mwy o ffocws ar hawliau a llesiant plant yn eu gwaith asesu parhaus a'u cynlluniau llesiant. Gall ffocysu ar hawliau plant helpu BGCau wrth iddynt ymgynghori, gwneud penderfyniadau a chynllunio eu rhaglenni. Byddai hyn yn cynnwys datblygu polisiau sy'n ffocysu ar hawliau plant, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gynorthwyo'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth yn cael ei dreialu a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r swyddfa Comisiynydd Plant yn hapus i roi cyngor i chi ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol

sy'n talu sylw i hawliau plant. Dylai ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc er mwyn eu helpu i ddeall sut yr ydych yn mynd ati i wneud hyn fod yn rhan hanfodol o'ch gwaith.

Rwy'n annog BGCau i gydweithio ac i rannu dysgu a syniadau. Mae'r mwyafrif o FGCau wedi nodi amcanion drafft sy'n cysylltu â'r blynyddoedd cynnar, rhoi cychwyn da i blant mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn cynnwys, Cwm Taf, Caerffili, Blaenau Gwent, Casnewydd, Conwy / Sir Ddinbych.

Amcan drafft 2: Cynorthwyo cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel a chydlynus.

Rydych wedi diffinio dau faes blaenoriaethol drafft ar gyfer yr amcan hwn, ac wedi ymrwymo i weithio gyda'ch gilydd i " greu cymunedau diogel, hyderus a mynd i'r afael â throedd, anhrefn a phob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol" a "gwella cydlynid cymunedol fel y gall pobl mewn cymunedau ddod ymlaen yn dda gyda'i gilydd gan barchu a chaniatáu gwahaniaethu. Nid yw eich asesiad llesiant yn nodi troedd fel problem arbennig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond mae'n datgan bod y canfyddiad o droedd yn heriol. Fel y dywedaso, bu cynnydd yn y nifer o achosion o gamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol a gafodd eu hadrodd dros y degawd diwethaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond mae hwn yn gam cadarnhaol o gofio bod y droedd hon yn aml ynghudd a heb gael ei hadrodd. Mae mynd i'r afael â throedd a'r hyn sydd wrth ei wraidd yn amlwg yn gymhleth, ond mae'r pum dull o weithio yn y Ddeddf yn darparu glasbrint ar gyfer edrych ar broblemau ac yn medru rhoi ffofws i chi, fel BGC. Gan gysylltu hyn â'ch amcan cyntaf, bydd angen i chi ystyried sut y gallwch fabwysiadu ymagwedd ataliol ar draws eich sefydliad - pa sefydliad sydd yn y lle gorau i ymyrryd yn gynt yn y cylch troedd ac yn wir ymlaen llaw i atal y materion rhag digwydd? Bydd dod yn well am atal drwy integreiddio gwasanaethau, gwrando ar ble mae pobl angen cymorth neu ble mae ganddynt bryderon, ac atal materion rhag gwaethygu, yn hollbwysig. Mae deall y rhesymau dros droedd a ganfyddir yn hollbwysig ar gyfer creu "cymunedau diogel, hyderus" a bydd angen i chi ennyn ymgyfraniad amrywiaeth o bobl i dwrio'n ddyfnach i mewn i'ch data ar y mater hwn. Gallai ennyn ymgyfraniad y bobl sy'n byw yno eich helpu i ennill darlun cliriach o'r rhesymau dros fodolaeth problemau, ond gallai hyn hefyd roi mewnwelediad i chi o asedau'r gymuned honno a darparu datrysiadau i chi.

Ar gyfer pob un o'ch amcanion drafft a'ch amcanion, bydd angen i chi ddangos sut yr ydych wedi ystyried y perthnasedd ar gyfer gwahanol gymunedau - tu allan i ddarpariaeth bresennol gwasanaethau cyhoeddus. Sut fedrwch chi weithio gyda'ch gilydd, gan ddefnyddio'r saith nod llesiant fel ffrâm, i ddeall sut y gellir darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol? Mae eich asesiad llesiant yn edrych ar droedd ar lefel Awdurdod Lleol, felly, fel yr amlinellir yn eich camau drafft, mae angen i chi ddeall sut mae hyn yn gwahaniaethu ar draws Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn asesu'n gywir yr hyn sydd angen i chi ei wneud. Efallai y bydd angen i chi weithio gyda phartneriaid i rannu gwybodaeth a data ar ba fath o faterion sy'n berthnasol mewn ardaloedd arbennig. A yw'r hyn sy'n achosi troeddu mewn ardal arbennig wedi cael ei ddeall yn iawn?

Mae'r fantais o weithio fel BGC yn golygu eich bod yn medru edrych ar broblem o nifer o bersbectifau a chydweithio gyda gwahanol bartneriaid i ddod o hyd i ddatrysiadau syml, yn aml drwy ail-ddylunio gwasanaethau ar y cyd â'r bobl sy'n eu derbyn. Roedd gwaith [yr athro John Shepherd ar economi'r nos](#) yng Nghaerdydd yn golygu edrych ar y broblem troedd sy'n gysylltiedig ag alcohol o nifer o wahanol bersbectifau, gan gyflwyno mesurau a lwyddodd i leihau troedd. Rydym yn aml mor brys yn delio â mater argyfyngus sy'n effeithio ar ein

gwasanaeth fel ein bod yn anghofio edrych o'n cwmpas a gweld y dylai fod yna ddull ataliol arall o ddatrys y broblem. Mae rhannu gwybodaeth a gwaith seiliedig ar dystiolaeth yn hynod bwysig wrth atal ymddygiad troseddol ac eithafol, sydd, wrth gwrs, yn dibynnu ar wybodaeth gymunedol, ymddiriedaeth a hyder. Mae [NESTA a'r Gynghrair ar Gyfer Tystiolaeth Ddefnyddiol](#) wedi cyhoeddi 'Using Research Evidence' fel canllaw i gyrff cyhoeddus i annog hyder wrth fabwysiadu ymagweddau newydd, ymyriadau byr, llym, gan unigolion a rymuswyd.

Gallai ymroi i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant eich helpu i edrych ar wahanol ddulliau o ddwyn cymunedau at ei gilydd a chynyddu cydlyniad. Mae'r diffiniadau o'r nodau llesiant yn dangos bod cydlyniad yn ymwneud â chymunedau deniadol, hyfyw a diogel â ganddynt gysylltiadau da. Felly, sut fedrwch chi ddathlu asedau'r ardal? Mae dwyn at ei gilydd bobl o wahanol ddiwylliannau, coginio, celf a pherfformio, yn creu cydlyniad a theimlad o berthyn. Bydd llawer o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n hwyl ac o les iddynt hwy. Mae yma gyfle gwirioneddol yn y fan hon i chi feddwl am ddulliau o facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau llesiant.

Fel y gwyddom, gall chwaraeon fod yn bwerus iawn drwy ddod â phobl o bob cefndir at ei gilydd. Mae Chwaraeon Cymru'n awyddus i weithio gyda'r BGCau ar sut y gallant facsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant. Gallai [strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru](#) sy'n amlinellu rhai o'r manteision a fedr ddeillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol i iechyd, cydlyniad a sgiliau'r boblogaeth, eich helpu i adnabod sut y gall prosiectau fod yn fuddiol iawn i'ch sefydliadau. Mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le.

Fel arweinwyr asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y dasg o hybu a chynorthwyo cydlyniad cymunedol. Mae potensial eich rôl yn y maes hwn yn mynd tu hwnt i adeiladu capasiti cymunedol, a hynny drwy hwyluso rhwydweithio a chydweithredu a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Dim ond i ryw raddau y gall yr agweddau hyn tuag at gymorth cymunedol fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan bobl a chymunedau. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau systemig sy'n atal pobl, cymunedau a gweithwyr rhag defnyddio'u hyfforddiant neu eu gwybodaeth, neu sy'n eu hatal rhag cyrchu'r gwasanaethau a allai helpu? Ydych chi wedi ystyried sut y gallech wella gwasanaethau presennol fel y gallent ddarparu ymagwedd ataliol - atal problemau megis Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod cyn iddynt ddigwydd - drwy gomisiynu'r gwasanaethau hyn yn wahanol? Mae'r ymchwil a ddogfennwyd yn ["What Works in Community Cohesion"](#) yn rhoi cyfeiriadau defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau cydlyniad cymunedol. A allai gweithio gyda chymunedau roi datrysiadau newydd i helpu pobl i deimlo'n ddiogel?

Mae ennyn ymgyfraniad pobl mewn dull mwy arwyddocaol yn ganolog os ydyw'r amcan hwn i'w wireddu a buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol, Efallai y byddwn yn dymuno cysylltu â [Participation Cymru](#), a fedr gynorthwyo eich swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru](#) eich helpu i ystyried cynlluniau

bancio amser, i roi enghreifftiau o gyd-gynhyrchu da a'ch helpu i adnabod ac ymgysylltu ag arweinyddion cymunedol. Yn lleol, sut fedr plant a phobl ifanc, ysgolion, colegau a Chynghorau Tref a Chymuned a'r trydydd sector chwarae rhan bwysig wrth gysylltu pobl â'i gilydd? Sut mae gwahanol leisiau'n cael eu cynrychioli yn y BGC? [Cynhyrchodd y CGGC wybodaeth ehangach](#) ar sut mae'r trydydd sector yn chwarae rôl yn y gwaith o gyfrannu i'r Ddeddf yn cynnwys y saith nod llesiant a allai fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth. Sut mae, neu sut fydd, asedau'r ardal yn cael eu harchwilio tu hwnt i'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n bodoli gan ymwneud mwy â chalon ac enaid y gymuned? Mae'r astudiaeth ['Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredeg](#) yn rhoi tystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant. Mae rhoi i gymunedau'r anogaeth fach honno, drwy, er enghraifft, gynlluniau sy'n gwobrwyo gwirfoddoli, neu grantiau bach i greu manau agored deniadol, yn medru arwain at ganlyniadau llawer mwy - fel y dengys y gwaith a wnaed gan ['Nurture Development' Datblygu Cymuned sy'n seiliedig ar Asedau](#).

Y ffordd orau o ddyfnhau eich gwybodaeth o gymunedau yw drwy brofiadau pobl sy'n byw yno. Mae ennyn ymgyfraniad eich staff, mynd o le i le i siarad â phobl a chydweithio gyda hwynt i gyflwyno prosiectau gyda'ch gilydd yn adeiladu ymddiriedolaeth rhwng cymunedau â'ch gwasanaethau gan arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol. Mae gwaith o'r fath eisoes yn cael ei wneud drwy [Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau](#) a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Efallai nad ydych yn gwybod pwy yw arweinyddion cymunedol posibl a chysylltwyr mewn rhai ardaloedd, felly os yr ydych wedi ymrwymo i wneud hyn, ail-bwrpaswch eich adnoddau i gynyddu eich gwaith mewn cymunedau, gan ddod i adnabod lle yn yr un modd ag y mae'r bobl sy'n byw yno yn ei adnabod. Sut ydych chi'n meddwl am hyn o safbwynt tueddiadau hirdymor? Mae cymunedau'n mabwysiadu gwahanol ffurfiau ac mae cymunedau yn awr yn aml yn cysylltu ar-lein - yn arbennig y rhai sy'n teimlo eu bod yn y lleiafrif. Mae'r adroddiad diweddar hwn ar [Digital Childhoods](#) o Barnados yn dangos pa mor gyflym mae technoleg yn symud a'r modd y mae plant yn awr yn defnyddio gwybodaeth.

Sut mae eich sefydliadau'n harneisio pŵer technoleg i'ch helpu i gwrdd â'r amcan hwn? Ar hyn o bryd mae plant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed ar gyfartaledd yn treulio chwe awr a hanner bob dydd o flaen sgrin; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion a [43% o 'genhedlaeth y mileniwm' yn cael eu sbarduno i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#). Pa fath o newidiadau y gall y bydd angen i chi eu gwneud i'ch systemau sefydliadol a pholisïau i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a ffurfio gwasanaethau lleol? Mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y ffordd sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach na gorchwyl ychwanegol. Mae ['Sir Fynwy Agored'](#) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Gall Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy rannu gyda chi yr hyn a ddysgasant wrth sefydlu'r wefan hon.

Mae nifer o FGau yn drafftio amcanion i annog cymunedau diogelach, mwy cydlynus â chysylltiadau da, yn cynnwys Sir y Fflint, Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd, Powys, Cwm Taf a Sir Fynwy.

Amcan drafft 3: Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

Gwnaethoch nodi drwy eich asesiad llesiant bod anghydraddoldebau'n bodoli yn llesiant pobl ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Fel yr wyf eisoes wedi eich cynghori, mae deall profiadau bywyd pobl yn hanfodol ar gyfer helpu i atal anghydraddoldebau. Mae'r enghraifft hon '[Why poor people don't plan long-term](#)' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau a wynebir gan bobl wrth geisio goresgyn anghydraddoldeb a sut y maent yn aml iawn yn cael eu hanwybyddu. Dywedasoch eich bod yn bwriadu gwneud darn o waith i ddilyn eich asesiad a fyddai'n ymchwilio effaith tloti ar lefel cymunedol a deall y gwahaniaethau rhwng y modd y mae gwahanol bobl yn profi tloti mewn gwahanol leoliadau. Os nad yw'r gwaith hwn eto wedi ei gwblhau, rwy'n eich cynghori i ddefnyddio'r pum dull o weithio wrth gynllunio ac ymgymryd â'r gwaith - bydd yn ddefnyddiol ar gyfer sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd gan greu cymunedau diogelwch a mwy cydlynol. Mae adroddiad y Sefydliad Royal Town Planning, '[Poverty, Place and Inequality](#)' yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng ac o fewn cymunedau.

Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydych yn cyflogi cyfran arwyddocaol o'r boblogaeth a bydd gan lawer o'ch gweithwyr deuluoedd yn byw yn yr ardal hefyd. Mae dros draean o'ch poblogaeth yn gweithio mewn swyddi cyhoeddus yn ymwneud â gweinyddu, iechyd neu addysg. Rwyf wedi cynghori pob BGC bod y newid yn cychwyn gyda hwy a'u sefydliadau hwy eu hunain; felly cefais fy nghalonogi i weld eich bod yn edrych ar ymagwedd eich sefydliadau chi eich hunan tuag at iechyd, llesiant a lleihau anghydraddoldeb economaidd. Rwy'n eich cynghori i gychwyn gyda'r saith maes sydd angen newidiadau yn y Ddeddf, i feddwl am ba effaith y gallwch ei gael: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg yw'r gweithgareddau craidd sefydliadol lle byddai defnyddio'r pum dull o weithio'n sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio eich gwaith. Buaswn hefyd yn eich cynghori i werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael dros sefydliadau eraill.

Mae yna lawer o ddulliau gwahanol o gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn ac enghreifftiau ar draws y byd o ymagweddau arloesol. Mae hyn nid yn unig yn gwneud synnwyr ariannol (mae cost ceidwadol salwch perthnasol i waith yng Nghymru'n £500m y flwyddyn) ond gall hefyd wella llesiant amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol trigolion. A oes yna gyfleoedd i gychwyn cynlluniau sy'n dwyn gweithwyr ar ei gilydd ac sy'n cyfrannu i'r nodau llesiant? Er enghraifft, mae rhai sefydliadau wedi cyflwyno cynlluniau plannu coed a chadw gwenyn, sy'n cyfrannu i Gymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang, Cymru gydnherth a Chymru iachach. Mae newid yn aml yn 'glyn' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed '[Behaviour Change is a Team Sport](#)' bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn gweithgareddau mwy corfforol.

Gellir dod o hyn i syniadau yn y [Sunday Times sy'n cyhoeddi rhestr flynyddol o'r 100 cwmni gorau i weithio iddynt](#), gyda'r gallu i asesu pa rai sydd orau am sicrhau 'llesiant' ac mae gwledydd fel [Sweden](#) yn uwch ar y rhestr na Phrydain am sicrhau bod eu staff yn iach ac yn gweithio i eithaf eu gallu. Yn nes adre, mae cydweithio rhwng

Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd, "[Cymru Iach ar Waith](#)" yn llawn o adnoddau a chanllawiau i'ch helpu i greu gweithlu iach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu [Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd Cenedlaethol](#) i gydlynu eu gwaith hwy eu hunain o gwmpas y Ddeddf, a thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallech ddarganfod ei bod yn ddefnyddiol i gysylltu â'r tîm cenedlaethol am ragor o dystiolaeth a gwybodaeth.

Mae Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru'n cydweithio fwyfwy i wella llesiant ac mae [Chwaraeon Gymru newydd gyhoeddi data](#) sy'n dangos y cysylltiad cadarnhaol arwyddocaol rhwng chwaraeon ac iechyd meddwl da. Awgryma dystiolaeth bod galluogi pobl i wneud dewisiadau iechyd iach yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a sut y maent yn cysylltu ag eraill. Mae eich pedwerydd amcan drafft yn amlwg yn cysylltu â hyn, sef gwella'r amgylchedd naturiol sy'n helpu pobl i reoli eu hiechyd. Cydweithio gyda sefydliadau eraill i archwilio'r cysylltiadau hyn yw pwrpas y BGCau.

Fel yr ydych wedi cydnabod mae'n siŵr, mae yna gyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, i ddatblygu ymagwedd drwy'r sir gyfan. Mae'r [prosiect Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru](#) yn enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i warchod eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae dulliau amgen o wella llesiant yn tyfu ac mae'r [astudiaeth hon ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi gwybodaeth ar fodolau, a pheth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC ['The doctor who gave up drugs'](#), sawl enghraifft o'r modd y gall ymagwedd amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy ffit yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddibynnu ar bresgripsiynau. Yn ei hanfod ymagwedd ataliol yw hon, fel y dangosodd ymchwil [Prifysgol Essex](#) ar wirfoddoli gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt - ar ôl tri mis roedd iechyd meddwl y cyfranogwyr wedi gwella. Gallai cydweithio gyda gwahanol sefydliadau i ddeall a gwerthuso'r dulliau hyn gael effaith drawsffurfiol ar ein hymagweddau presennol tuag at iechyd.

Nododd eich asesiad bod gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfradd uwch o bobl mewn gwaith na chyfartaledd Cymru, ond mae yna leihad yn y nifer o rolau medrus – yn arbennig yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr. Amlygodd adroddiad diweddar y Samariaid [Dying from Inequality](#) y cynnydd mewn risgiau hunanladdiad ymhlith pobl â swyddi sgiliau isel, ac a oedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Gellid adnabod llawer ohonynt yn ifanc iawn, ac mae'r rhai hynny a chyflawniadau addysgol isel mewn mwy o risg, sy'n cysylltu â'ch amcan cyntaf sy'n ymwneud â rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc. Fel [mewn llawer ardal yng Nghymru](#) credir bod pobl ifanc yn gadael eu hardaloedd. Os ydyw hyn yn wir, drwy gysylltu hyn â'ch amcanion drafft eraill, beth fedrwch chi ei wneud i annog cyfleoedd a fyddai'n eu caniatáu i aros? Mae ardaloedd gwledig yn Japan a Chanada wedi gweld cynnydd yn ddiweddar yn y nifer o bobl ifanc yn eu poblogaeth sy'n aros yn y man lle cawsant eu geni, yn rhannol oherwydd gwell technolegau, ond mae hefyd yn adlewyrchu dathliad o ffordd o fyw a chyflwyno twristiaeth gynaliadwy. Awgryma'r [erthygl hon gan World Economic Forum](#) y gallai rhai o'r atebion fod mewn mentrau cymunedol o'r gwaelod-i-fyny, lle mae pobl ifanc yn ymfalchïo mewn dweud wrth eraill am eu treftadaeth a'u hamgylchedd, ac fel y maent wedi cychwyn busnesau sy'n elwa ar ymweliadau twristiaid. Gyda thwf iach mewn

busnes ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sut fedr y BGC feithrin twf drwy ei ddylanwad a thrwy ennyn ymgyfraniad pobl ifanc mewn ymgymryd â phrentisiaethau neu hyfforddiant?

Wrth edrych ar eich asedau, un maes cyflogaeth sy'n tyfu yn eich ardal yw dosbarthu, gwestai a thai bwyta - sy'n amlwg yn gysylltiedig â thwristiaeth. Pa gyfleoedd sydd ar gael i ehangu'r sector a dwyn swyddi o well ansawdd? Mae annog pobl i ddod i'r ardal yn hybu economïau lleol eraill ac yn creu amodau ar gyfer twf. Â phwy y gall y bydd angen i chi gydweithio i annog cynnydd yn nifer twristiaid? Gallai gwella eich amgylchedd naturiol a chydweithio'n rhanbarthol fod yn fanteisiol i'ch ardal. Byddai maccsimeiddio eich cyfraniad i Gymru â diwylliant bywiol ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu, ac ymroi i gyfrannu tuag at [Cymraeg 2050](#) yn golygu y byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn dod yn fwyfwy pwysig i fusnesau. Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwf, beth am gyflwyno mentrau sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n maccsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant? Mae tîm Comisiynydd yr Iaith Gymraeg hefyd yn ymroi i gynorthwyo BGCau yn y modd y maent yn annog ac yn cynorthwyo twf y Gymraeg ar draws Cymru - os gwelwch yn dda gadewch i fy nhîm wybod os hoffech sicrhau cymorth penodol oddi wrthynt.

Buaswn yn eich cynghori, fel arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, eich bod yn ystyried sut y gallwch weithredu, neu sut y gallwch ddylanwadu i gwrdd â'r amcan hwn. Rwy'n falch eich bod yn ymroi i ddatblygu proses gyffredin ar gyfer recriwtio prentisiaethau a rhaglen gychwynnol i brentisiaid ar y cyd â phartneriaid. Pethau eraill y dylech eu hystyried ar gyfer maccsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau yw gofyn a yw eich sefydliadau ar hyn o bryd yn gyflogwyr cyflog byw? Sut fedr eich polisiâu caffael ymroi i gynorthwyo busnes lleol a ffocysu ar fwy na gwerth economaidd? Sut fedrwch chi fod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang drwy gaffael cynnyrch organig, Masnach Deg a, lle mae hynny'n bosibl, gwtogi ar drafnidiaeth yn unol â'r amcan I warchod eich amgylchedd? Mae [Forum for the Future](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa'n gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i dreialu ymagweddau newydd tuag at gaffael yng nghyd-destun y Ddeddf. Sut fedrwch chi integreiddio eich cymorth i'r busnesau hyn a sut mae eich cynlluniau i wneud hyn yn cysylltu â pholisi a chyfleoedd darparu gwasanaethau ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol? Beth am gyflwyno mentrau i gynorthwyo busnesau sy'n mynnu bod yn rhaid i bobl greu mentrau cynaliadwy sy'n maccsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant?

Sut ydych yn meddwl yn yr hir-dymor wrth ddatblygu lefelau sgiliau? Mae dyfodol cyflogaeth a sut yr ydym yn gweld 'gwaith' yn newid: mae adroddiad [Workforce of the Future](#) yn rhagweld y bydd 65% o blant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gwneud swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Mae gwaith seiliedig ar brosiectau'n debygol o ehangu, gyda sgiliau fel creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys problemau yn dod yn llawer pwysicach na gwybodaeth benodol. Ac [yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd. Mae hyn yn gyfle ac o bosib yn risg, fel y nodir [yn yr erthygl hon](#) mae gennym i gyd gyfrifoldeb i adnabod hyn a meddwl am fanteision. Sut fedrwch chi weithredu yn awr, fel gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, sy'n ymwneud â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiannau bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac a fydd yn llesol i'r economi lleol? Mae [adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn amlygu gwerth yr economi

cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol?

Gyda pwy mae angen i chi gydweithio i greu addysg a sgiliau o ansawdd uchel? Sut fedr hyn facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant? Er enghraifft, mae ysgolion yn aml wrth galon cymuned gydlynol, a gall y pecyn cywir o sgiliau arwain at gymdeithas llawer mwy cyfartal. Sut fedrwch chi weithio gydag ysgolion, colegau a Phrifysgolion i archwilio beth a olyga hyn yng nghyd-destun Pen-y-bont ar Ogwr? Sut ydych chi'n ennyn ymgyfraniad busnesau wrth ddeall y mater hwn? Sut fedrech chi annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol a galluogi gwell dysgu i bobl ifanc a phobl hyn?

Wrth gysylltu â'ch amcanion eraill ac anelu at 'gydraddoldeb', bydd hefyd angen i chi nodi pa ystyriaethau penodol yr ydych chi wedi eu cymryd i facsimeiddio eich cyfraniad i Gymru fwy cyfartal. Mae eich asesiad yn nodi gwahaniaethau arwyddocaol rhwng tâl menywod a dynion. Beth fedrwch ei wneud i annog mwy o fenywod i mewn i rolau a sgiliau uwch â gwell tâl? Dylai hyn gael ei ystyried fel rhan o'ch dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'ch amcanion cydraddoldeb strategol. Er enghraifft, [mae llai nag 1% o brentisiaethau yng Nghymru'n cael eu cymryd gan bobl anabl](#) ac ar gyfartaledd mae'r [bwllch mewn tâl i bobl anabl ar draws Prydain Fawr yn dal yn 13.7%](#). Mae gan [Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru](#) nifer o adroddiadau ymchwil sy'n amlygu'r mater ehangach o gwmpas anabledd, ethnigrwydd a bylchau tâl rhwng y rhywiau. Mae ystyried sut mae'r neges hwn yn cael ei sylweddoli o le i le yn bwysig yn hyn o beth, i ddeall pa gamau y gall y bydd angen i chi eu cymryd ac i ba gyfeiriad. Er enghraifft, beth allai hyn ei olygu i ofal plant hyblyg mewn cymunedau arbennig? Sut ellid gwella hygyrchedd? Sut mae cyfleoedd yn cael eu dal yn ôl gan seilwaith digidol? Wrth i fwy a mwy o gyflogaeth ddod yn fwy dibynnol ar gysylltedd digidol, sut fedr BGCau ddylanwadu ar ddarparwyr y sector preifat i wella seilwaith digidol eu siroedd? Sut fedrwch chi gydweithio gyda busnesau i ddarparu achos ariannol dros newid?

Mae Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn amlwg yn darparu cyfle cyffrous i wella sgiliau, ond rwyf cyn hyn wedi mynegi pryder bod y fargen yn cael ei dwyn yn ei blaen gyda'r rhai hynny sy'n ymgyfrannu'n gweld Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhywbeth yr ydych chi yn asesu eich gweithrediadau yn ei herbyn, yn hytrach nag fel dull o ffurfio sut mae pethau'n cael eu cynllunio a'u cytuno. Dylech ymroi i integreiddio'r gwaith hwn gyda gwaith y BGC wrth i chi chwarae rôl ganolog yn y dasg o lywio'r cyfleoedd hyn fel man a fydd yn elwa o'r buddsoddiad. Buaswn yn eich cynghori, fel arweinwyr, bod angen i chi ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gan gadw llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol pobl ar draws y rhanbarth mewn golwg. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tlodi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Felly byddai dehongli gwerth y Ddinas-ranbarth o safbwynt economaidd yn unig yn gamgymeriad. Oes, mae cyfle economaidd cadarnhaol yn y fan hon, ond sut fedrwn ni greu cydbwysedd yn ein cyfrifoldebau i ddatblygu rhanbarth sy'n gynaliadwy ac sy'n rhoi pobl yn y canol. Yn yr un modd, gobeithio [fod fy llythyr i'r rhai a ymgyfrannodd yn Rhagfyr 2016](#) yn rhoi i chi beth cyngor ar y mater, ac yn ddiweddar [gwneuthum sylw hefyd mewn ymateb](#) i adroddiad Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden ["Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy."](#)

Rwyf wedi cynghori'r mwyafrif o FGCau i gychwyn gyda'i sefydliadau eu hunain a'u gweithwyr wrth wella llesiant; mae Castell-nedd Port Talbot hefyd wedi pennu amcan llesiant drafft sy'n ymwneud â llesiant y gweithlu. Mae nifer o FGCau yn ymroi i wella sgiliau ac yn edrych am gynlluniau prentisiaethau ar y cyd, megis Cwm Taf.

Amcan drafft 4: Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

Rwy'n falch eich bod, drwy ymroi i wella llesiant corfforol a meddyliol, drwy wella'r ffordd yr ydych yn defnyddio ein hadnoddau naturiol, wedi gosod camau drafft sydd nid yn unig yn berthnasol i'r modd y gall iechyd gael ei wella ond sy'n cysylltu ag amgylchoedd adeiledig a naturiol pobl, eu hincwm a'u bywyd cymunedol - i gyd yn effeithio'n ehangach ar iechyd. Rwy'n eich cynghori i ddefnyddio'r diffiniadau o'r saith nod llesiant, gan eu bod wedi eu bwriadu i ddangos i chi sut y gallwch greu manteision niferus yn nhermau llesiant drwy'r eich gweithrediadau.

Mae eich asesiad llesiant yn disgrifio asedau naturiol Pen-y-bont ar Ogwr, a siaradodd llawer o'ch trigolion am y modd y mae eu llesiant yn cael ei wella gan eu hamgylchoedd a thrwy fod allan yn yr awyr agored. Mae meddwl am dueddiadau hirdymor ar gyfer eich ardal, gwarchod yr asedau hyn a hybu bioamrywiaeth y sir yn dod yn fwy ac yn fwy pwysig. Mae adroddiad diweddar [Zero Carbon Britain, 'Making it Happen'](#) yn amlinellu pa gyfrifoldebau sydd gennym i gyd i genedlaethau'r dyfodol drwy weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd.

Buaswn yn eich cynghori i feddwl am eich rolau chi eich hunain yn y dasg o warchod yr amgylchedd hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y bydd angen iddo fod yn glir yn y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Bydd hyn yn cynnwys sut yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol) a'ch gwaith gyda Dinas-ranbarth Caerdydd, adeiladau, seilwaith a mannau agored cyhoeddus a chymunedol eraill. Beth fedrwch chi ei wneud, fel Prif Weithredwr, Gadeirydd neu Arweinydd, yn awr, i leihau effeithiau colli ein hamgylchedd a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang? Er enghraifft, gall penderfyniadau a wneir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus o amgylch seilwaith, gael effaith ar allyriadau, ansawdd aer ac iechyd. Er mai dim ond ychydig o allyriadau yng Nghymru sy'n deillio o'r sector cyhoeddus, rydych chi mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n fwy eang ar allyriadau mewn meysydd megis cludiant nwyddau, ynni, defnyddio tir a chaffael. [Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru](#) lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Byddwch wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad ar 9^{fed} Tachwedd: i archwilio sut fedr y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau hirdymor carbon yn eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethgu ymhellach.

Sut ydych chi'n ystyried effaith economaidd posibl a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd? Os yr ydych yn ymroi i ddefnyddio eich adnoddau naturiol ar gyfer creu manteision economaidd, sut ydych chi wedi ystyried effaith hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol ar yr adnoddau hyn? Sut fedrwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallech ei fabwysiadu i amddiffyn seilwaith critigol, amaeth, cyflenwadau dŵr a

trafnidiaeth mewn digwyddiad o dywydd eithafol? [Amcangyfrifir y bydd niwed blynyddol i eiddo preswyl yn £22 miliwn](#) felly, mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau yn hollbwysig ar gyfer ei atal. Mae llifogydd hefyd yn effeithio ar lesiant corfforol a meddyliol pobl yn hir ar ôl y digwyddiad ei hunan, sy'n anodd i'r rhai sy'n rhan ohono, ac yn anochel yn gostus i wasanaethau eraill.

Sut fedrwch chi gael cymunedau eu hunain i ymgyfrannu yng ngwireddiad yr amcan hwn? Yn gysylltiedig â'ch amcanion cynharach, gall cael pobl i ymgyfrannu o gwmpas lle neu achos cyffredin fod yn hynod o bwerus. Gall cael pobl allan i'r awyr agored gyda pheth gwybodaeth, a'u galluogi i weithredu, helpu i wneud yr amgylchedd lleol yn fwy cydnerth. Sut fedrwch chi helpu hyn i ddigwydd a, thrwy ddefnyddio'r diffiniadau o'r saith nod llesiant, gael mwy o effaith? Mae gan [NESTA ganllaw](#) ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hól-troed carbon. Mae prosiectau megis '[GlawLif' Dŵr Cymru](#) yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd. Mae enghraifft eithafol yn cynnwys [Ynys Eigg yn yr Alban](#), lle mae'r gymuned yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno a gofalu am gynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth.

Bydd cydweithio gyda busnesau wrth benderfynu ar eich camau i gwrdd â'r amcan hwn hefyd yn bwysig yn nhermau gwarchod a gwella'r tir ac atal dirywiad mewn bioamrywiaeth. Prif achos ansawdd aer gwael yw trefoli a datgoedwigo cysylltiedig, cynhyrchu, diwydiant (yn arbennig losgi tanwydd ffosil) a lefelau trafndiaeth. Gall llygredd aer gael effaith arwyddocaol ar eich iechyd, yn cynnwys cysylltiad â chlefydau anadlol, cancr, niwed i organau a lleihau disgwyliad oes. Ar gyfer pob un o'ch camau, defnyddiwch y diffiniadau o'r nodau llesiant i feddwl am y modd y gallwch wneud rhywbeth yn wahanol i ennill yr effaith mwyaf posibl, ac integreiddio ar draws llawer o'ch camau drafft. Er enghraifft, sut fedrwch chi annog polisïau gwaith ystwyth, gan gwtogi ar y defnydd o geir. Mae rhai BGCau yn cyflwyno pwyntiau ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn eu sefydliadau hwy eu hunain, i annog newid moddol. Wrth feddwl am bob un o'r camau hyn defnyddiwch y diffiniadau o nodau llesiant i ystyried sut y gallwch wneud rhywbeth gwahanol, gan gael yr effaith mwyaf posibl, ynghyd ag integreiddiad ar draws llawer o'ch camau drafft. Sut fedrwch chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ymroi i wella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol? Sut fedrwch chi annog cyfartaledd drwy eu gwirfoddoli, a chydlynid o fewn rhai o'ch cymunedau? Mae gan [Busnes yn y Gymuned](#) ystod o ddulliau ymarferol ar gyfer busnesau, ar sut i gydweithio a gweithredu i helpu i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Mae trafndiaeth ac ynni yn ddau o'r pethau mwyaf y gallwn ddylanwadu arnynt i effeithio ar y newid yn yr hinsawdd. Mae gennych gyfrifoldeb yn meysydd trafndiaeth, cynllunio a seilwaith ac mae'n rhaid i chi, yn awr, ystyried hyn o bersectif y saith nod llesiant a sut mae'r pum dull o weithio'n fframio eich meddwl. Sut fedrwch chi gynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol) mewn ffordd sy'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang a Chymru gydnerth. Sut fedrwch chi greu cymunedau sy'n hybu cydraddoldeb, â ganddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu wrth eu gwraidd, ac sy'n ddiogel, yn gydlynol a hyfyw, gyda chysylltiadau da?

Rydych wedi nodi eich bod yn awyddus i hybu eich dyletswydd parthed teithio llesol. Mae hyn hefyd yn gofyn am newid mewn ymddygiad, y gellir penderfynu arno drwy seilwaith. Mae dinas [Freiburg](#) yn aml yn cael ei chrybwyll fel enghraifft o ddatblygu trefol a ganddi drafndiaeth gyhoeddus llesol integredig fel rhan ganolog o'i dylunio. Heblaw am flaenoriaethu trafndiaeth llesol cynaliadwy a fforddiadwy, a thrafndiaeth gyhoeddus ddibynadwy, mae strategaeth osgoi traffig yn golygu ei bod yn ddinas o bellteroedd byr, lle mae anghenion pobl yn cael eu diwallu o fewn pellteroedd byr. Gellir dod o hyd i enghraifft o ardaloedd gwledig gyda llai o boblogaeth yn yr Iseldiroedd, lle mae cynlluniau trafndiaeth sy'n ymateb i alw yn golygu bod gwasanaeth tacsï masnachol ar y cyd yn cael ei ddarparu mewn 111 o orsafoedd trenau - caiff ei gynorthwyo'n ariannol gan Dutch Railways.

Sut fedr seilwaith cynllunio hybu manteision ehangach, megis ['heolydd solar' cynhyrchu trydan adnewyddadwy](#) neu heolydd o [blastig sydd wedi ei ailgylchu](#), megis y rhai sy'n cael eu treialu yn Rotterdam? Sut fedr hyn gael ei gysylltu â chreadigaeth mannau agored gwyrdd cymunedol - yn unol â'ch blaenoriaethau eraill? Mae'r offeryn [Llunio fy Nhref](#) o Gomisiwn Dylunio Cymru yn adnodd rhyngweithiol i greu mannau cymunedol sy'n eich annog i feddwl yn fanwl am rai o'r posibiladau. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#) yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant sydd wedi eu profi, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn macsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac wedi dangos y gall brysuero iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol. Ym mhob un o'r ardaloedd hyn gall fy swyddfa eich cysylltu â'r bobl a'r sefydliadau hyn, a fyddant, efallai, yn gallu eich helpu wrth i chi ddatblygu eich gwaith.

Wrth ddatblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol (eich trydydd amcan drafft), sut fedr eich cyfrifoldebau o gwmpas seilwaith hefyd greu swyddi o ansawdd da drwy ddefnyddio'r Ddeddf? Sut fedr wch chi ddylanwadu ar waith y Ddinas-ranbarth yn hyn o beth? Mae [Closing the Circle](#) yn adrodd ar yr economi cylchol ac mae 'Amgylchedd Cymru' yn adroddiad defnyddiol a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. Mae'n dangos cyfle economaidd posibl o £1 biliwn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2035 drwy ddefnyddio, mewn ffordd ymarferol, egwyddorion yr economi cylchol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o ble fedr y sector cyhoeddus ymroi i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Mae hyn yn gynydd o 12.5% yn nhrosiant sector amgylchedd adeiledig Cymru ac mae'n cynhyrchu 7,300 o swyddi (gros). Mae'r wefan [Good Local Economies](#) yn awgrymu sut y gall y sector cyhoeddus a sefydliadau cymunedol weithio gyda'i gilydd i greu manteision niferus ar gyfer eu hardaloedd yn nhermau tai, ynni, caffael, cyllid ac economïau lleol.

Mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfangwbl erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Sut ydych chi wedi ystyried potensial ynni morol, gwynt a solar fel BGC? Wrth greu economi carbon isel, sut fedr wch chi ystyried effaith defnyddio ynni ar Ben-y-bont ar Ogwr? Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad ['Dyfodol Ynni Craffach i Gymru'](#) gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r

adroddiad ['A Smart Energy Future for Rural Areas'](#) sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Mae prif seminar [Policy Forum for Wales](#) i'w chynnal ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'r sector yng Nghymru a chynnyddu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae gennych rôl mewn cynllunio, tai a thrafnidiaeth, sef creu mannau sy'n addasadwy ac yn abl i newid dros o leiaf y ddwy genhedlaeth nesaf. Erbyn 2036 bydd 29% o stoc dai Cymru dros 90 mlwydd oed. Rwy'n eich cynghori i ddefnyddio'r saith nod llesiant fel ffrâm i lunio eich meddwl a'ch cynllunio ac i ystyried eich amcanion eraill a'ch camau o amgylch trafndiaeth, yr amgylchedd a galluogi iechyd a llesiant pobl i wella. Mae tai yn gonglfaen llesiant; sut y cânt eu hadeiladu, fforddiadwyedd, ble maent wedi eu lleoli a pha mor addas ydynt i gwrdd ag anghenion y trigolion yn awr ac yn y dyfodol - gall hyn cael effaith enfawr ar iechyd, cydraddoldeb, cydlynid cymunedol, a'r amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o dai yng Nghymru yn ddiffygiol o safbwynt effeithlonrwydd ynni. Mae tai'n cael eu hadeiladu i deuluoedd heb fod yn hyblyg i ddefnyddwyr, ac rydym yn gyson yn gweld ystadau mawrion yn cael eu hadeiladu heb werthfawrogi teithio llesol, heb ystyried bod siopau, tafarndai, gofod gwyrdd neu las, neu wasanaethau cyhoeddus yn rhy bell i fynd iddynt ar droed.

Sut ydych chi'n ystyried dylanwad newid demograffig ar gynllunio a datblygu? Dylid gweld pobl hŷn fel ased - sy'n cyfrannu at yr economi, yn darparu gofal am ddim a sgiliau gwirfoddoli. Mae gwaith y [Comisiynydd Pobl Hŷn](#) yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer archwilio sut y gallwch helpu pobl i heneiddio'n dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n cynnwys ei harweiniad diweddar i FGCa. Rwy'n dymuno gweld sut yr ydych yn mabwysiadu ymagwedd hirdymor ataliol. Sut ydych chi'n meddwl am y nifer cynyddol o bobl hŷn sy'n byw ac yn symud i fyw yn eich ardal? Sut ydych chi'n ymroi i greu cymunedau a chysylltiadau da a hyfyw drwy ddatblygiadau a thrafnidiaeth? Mae'r [adroddiad hwn gan Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan greu cymunedau hyblyg, cyfeillgar i oed, ac amgylcheddau a fedr atal pobl rhag bod ag angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi.

Mae rhaglenni fel menter ['World Health Organisations Age Friendly Cities'](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar-i-oed, drwy addasu adeiladau, trafndiaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hŷn i aros yn iach a chysylltiedig â phethau sy'n bwysig iddynt am amser hwy. Mae [Laguna Woods](#), y ddinas gyntaf yn yr UD sydd wedi ei neilltuo i bobl hŷn, a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog sy'n cyfrannu at gymdeithas fwy cyfartal. Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn barod i symud i fyw o fewn 1 cilomedr i'w neiniau a'u teidiau. Yn gysylltiedig â'ch amcan ar gydlynid, mewn rhai ardaloedd, mae sefydliadau cymunedol wedi cael eu hariannu i weithredu fel cydlynwyr cymunedol ar gyfer pobl hŷn - gan eu cysylltu â gweithgareddau lleol a gwasanaethau yn eu hardal a'u helpu i gadw'n weithgar ac iach. Sut fedr gwirfoddoli ddenu'r math hyn o rôl?

Gallai technoleg hefyd newid y ffordd yr ydym yn byw a ble mae tai yn cael eu datblygu. Mae'r cysyniad o ['Hyperbentref'](#) a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, [sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg](#). Mae yna hefyd brosiectau sy'n annog rhannu tai, tai a

gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu - llawer ohonynt yn cysylltu pobl drwy'r rhyngwrwd. Er enghraifft, mae [myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal mewn](#) cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hŷn; Mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau Rhannu Cartref](#), ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, mae'r [Almaen](#) wedi cyflwyno tai sy'n pontio'r cenedlaethau i bobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen. Buaswn yn eich annog i feddwl yn greadigol am y mater hwn ac ymroi i gydweithio gyda 'rhai anarferol' yn y trydydd sector, addysg bellach ac addysg a digideiddio i ddeall sut y medrwyd fabwysiadu ymagwedd wahanol. Rydym yn annhebygol o gael gwahanol ganlyniadau drwy barhau i wneud yr un pethau.

Mae yna lawer o FGCau sy'n ymroi i warchod eu hamgylchedd yn cynnwys: Blaenau Gwent; Caerffili; Bro Morgannwg; Powys; Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae yna hefyd FGCau sy'n ymroi i annog teithio llesol a meddwl am gynllunio yng nghyd-destun newidiadau demograffig, yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, a Sir y Flint.

Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maximeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthydych chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Pen-y-bont ar Ogwr ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe